**Eitem ar yr Agenda: 3**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gynhaliwyd ddydd Llun 21ain Mai 2007 ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 o'r gloch y prynhawn.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R D Peacock (eilydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cefnogi'r Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth); K Hughes (Uwch Reolwr Diogelwch Tân) ; D G Roberts (Rheolwr Prosiect y System Dyletswydd Rhan Amser); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); R Jones (Rheolwr Cefnogol Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddog Tân); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K Williams (Prif Archwilydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Roberts (Pennaeth Rheoli Cyfleusterau); R Fairhead (Aelod o Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân); G Watson (Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

Cyn dechrau'r busnes, fe dalodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cynghorydd S C Jones a fu farw yn ystod Ebrill. Roedd y Cynghorydd Jones yn uchel ei pharch ac yn aelod gwerthfawr iawn o'r Awdurdod, ers ei sefydlu yn 1996. Roedd hi hefyd yn aelod o'r Panel Gweithredol. Fel arwydd o barch safodd yr aelodau a'r swyddogion mewn distawrwydd.

Cyflwynwyd Mr Richard Fairhead i'r aelodau gan y Prif Swyddog Tân. Ar hyn o bryd, roedd Mr Fairhead yn aelod o Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân a chyn bo hir, byddai'n cychwyn swydd arall yn y Pencadlys fel Swyddog Cefnogi Tîm Ymgynghori'r Prif Swyddog Tân. Hysbyswyd aelodau hefyd fod Mr Dai Roberts, Rheolwr Prosiect y System Dyletswydd Rhan Amser, yn ymddeol ym mis Gorffennaf wedi mwy na 30 mlynedd o wasanaeth neilltuol. Dangosodd aelodau a swyddogion eu gwerthfawrogiad iddo am ei wasanaeth a dymunwyd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim eitemau wedi eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc i'w hystyried.

**3) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. cyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 5ed Mawrth 2007

***Penderfynwyd:* - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**4) Materion yn Codi**

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

**5) Cynigion ar gyfer Cynllun Lleihau Risg Drafft 2008/09**

Cyn cychwyn yr eitem fusnes hon, fe ddatganodd y Cynghorwyr J Vaughan a J A Roberts ddiddordeb yn y cynigion oedd yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth o gyflenwi Rheolwyr Gweithrediadol wrth gefn, gan eu bod yn perthyn i swyddogion sy'n gweithio ar y System Dyletswydd Hyblyg sy'n darparu swyddogion gweithredol wrth gefn. Cynghorwyd y ddau aelod gan y Clerc fod

modd iddyn nhw aros yn bresennol yn ystod y drafodaeth oni bai fod mater yn codi yn ystod y drafodaeth lle byddai angen gofyn iddyn nhw adael y cyfarfod am weddill y drafodaeth. Ni chymerodd y naill aelod na'r llall ran yn y drafodaeth, na phleidleisio ar y cynnig, oedd yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth o Swyddogion Gweithredol wrth gefn.

Hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr aelodau am y wybodaeth ddarparwyd i Weithgor y Cynllun Lleihau Risg yn ei gyfarfod yn gynharach y diwrnod hwnnw, cyn parhau i grynhoi argymhellion y Grŵp mewn perthynas â'r cynigion y dylai'r Panel Gweithredol ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg drafft yr Awdurdod ar gyfer 2008/09 cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin, am gymeradwyaeth i fynd am ymgynghoriad cyhoeddus.

***Penderfynwyd:*** - **dylai Cynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg drafft 2008/09 sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 18fed Mehefin gynnwys:**

***i.*** ***manylion o strategaeth Diogelwch Tân Cymunedol diwygiedig dwys, gyda'r nod o ostwng y nifer o farwolaethau tân;***

***ii.*** ***manylion o'r ymgynghoriad fydd yn cael ei gychwyn ar gynigion i gyflwyno polisi cadarn i ostwng nifer y galwadau diangen o systemau Larymau Tân Awtomatig, yn cynnwys cynnig i weithredu rhaglen gofnodi flaengar ar gyfer systemau larymau tân awtomatig;***

***iii.*** ***y newidiadau arfaethedig i'r gweithdrefnau rhestru i ddiffoddwyr tân Llawn Amser a Chriw Dydd yr ymgynghorir arnynt: y newidiadau yma i gynnwys rhestru'r nifer gywir o staff i gwrdd â gofynion anfon peiriant allan, rhestru cytundebau net, oriau wrth gefn i'w defnyddio i gyflenwi absenoldebau, cyflwyno patrwm shifft 10 wythnos (i gynnwys y model pedwar diwrnod ymlaen pedwar diwrnod i ffwrdd) a bod yr hawl am wyliau blynyddol yn cael ei roi yn y patrwm rhestr;***

***iv.*** ***manylion o'r 'Opsiwn Ymateb Ymroddedig' argymelledig fydd yn cael ei ddilyn ar gyfer y ddarpariaeth o Reolwr Gweithrediadol wrth gefn yn y dyfodol gyda golwg o sylweddoli defnydd mwy effeithiol o adnoddau yn y tymor hir;***

***v.*** ***manylion o'r gwelliannau yn fframwaith rheoli perfformiad a threfniadau rheoli risg y Gwasanaeth;***

***vi.*** ***costau amcangyfrifedig/arbedion effeithiolrwydd disgwyliedig yr holl gynigion a restrir;***

***vii.*** ***fod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn cymeradwyo Cynllun Gweithredu y Cynllun Lleihau Risg 2008/09 drafft cyn ei gyflwyniad i'r Awdurdod Tân ac Achub; ac***

***viii.*** ***yn y cyfamser, cyn cychwyn y cyfnod ymgynghoriad cyhoeddus, fod yr Awdurdod yn cychwyn trafodaeth anffurfiol ar ei argymhellion gyda Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n dal y cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru.***

## 6) Monitro Perfformiad

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn cyflwyno gwybodaeth oedd yn gysylltiedig â pherfformiad y Gwasanaeth yn erbyn y dangosyddion perfformiad gosodedig yn ystod blwyddyn adrodd 2006/07 i aelodau. Eglurodd, fod y gwasanaeth wedi cwrdd ag 14 allan o'r 20 o ddangosyddion perfformiad yr oedd y Gwasanaeth wedi gosod i'w hunan ar gyfer 2006/07, gyda 2 o'r 4 oedd yn weddill yn dangos cryn welliant ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol. Tynnwyd sylw'r aelodau at nifer o Ddangosyddion Perfformiad yn yr adroddiad. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd bychan yn y nifer o danau cynradd y gellir eu priodoli i danau bwriadol. Roedd y nifer o brif danau a thannau eilaidd bwriadol wedi dangos cynnydd bychan ar ffigyrau'r flwyddyn flaenorol. Felly, roedd yn bwysig fod gweithio mewn partneriaethau ac ymagweddau aml asiantaeth yn cael eu defnyddio'n llawn gyda golwg o ostwng y nifer o'r mathau yma o danau. Mewn ymateb i gais gan yr Is-Gadeirydd, ymgymerodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân i gael gwybodaeth gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol ar y nifer o danau bwriadol mewn ceir wedi eu gadael.

Hysbyswyd aelodau, yn groes i'r ystadegau ar y nifer o farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, oedd wedi cynyddu'n sydyn yn ystod y flwyddyn, roedd yr ystadegau mewn perthynas ag anafiadau a diangfeydd o danau damweiniol mewn cartrefi yn galonogol. Byddai'r ystadegau yma'n cael eu hadlewyrchu yn narganfyddiadau adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân oedd i'w gyhoeddi yn ystod yr wythnos ganlynol. Roedd hefyd yn galonogol adrodd fod y Gwasanaeth wedi derbyn llai o alwadau ffug maleisus yn ystod 2006/07 a bod y nifer o bresenoldebau mewn galwadau i larymau diangen o Larymau Tân Awtomatig yn is na ffigwr y flwyddyn flaenorol. Mewn ymateb i gwestiwn ar sut oedd swyddogion yn symud ymlaen gyda'u trafodaethau â sefydliadau GIG gyda golwg ar sylweddoli gwelliant yn y rheolaeth o'u systemau larwm tân, fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) fod polisi yn cael ei lunio ar hyn o bryd fyddai'n gweld cyflwyno system fyddai'n cynnwys pennu Rhif Cyfeirnod Unigryw i bob system larwm ar wahân o fewn safleoedd, megis ysbyty, fyddai yn ei dro yn caniatáu rheoli'r systemau larwm mewn modd gwell. Fe eglurodd mai ymateb cymysg a gafwyd gan sefydliadau'r GIG i'r cynnig hwn ac, er fod rhai yn gefnogol, nid oedd gan yr unigolion oedd yn gwasanaethau ar y gweithgor ddim rheolaeth dros gyllid eu sefydliad, ac felly, gallai hyn rwystro'r cynnydd ar y mater. Roedd yn ddymunol adrodd y flwyddyn hon, am y tro cyntaf, fod y Gwasanaeth wedi cofnodi fod larwm mwg gweithredol wedi cael ei osod ac wedi gweithredu mewn dros 50% o'r tanau mewn cartrefi oedd y Gwasanaeth wedi eu mynychu. Cynghorwyd aelodau y byddai adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yn darparu ystadegau ar faterion amrywiol, megis sut oedd Gogledd Cymru yn cymharu gydag ardaloedd eraill ar y nifer o gartrefi gyda larymau mwg. Mewn ateb i gwestiwn os oedd y Gwasanaeth yn cadw cofnod o unigolion oedd wedi gwrthod archwiliad diogelwch tân yn y cartref am ddim, fe gynghorodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod gwaith yn mynd rhagddo ar weithredu system gofnodi i'r rhai oedd yn gwrthod.

Mewn perthynas â'r nifer o ddiwrnodau/shifftiau gwaith gollwyd oherwydd salwch, roedd swyddogion yn falch o adrodd, er yn parhau yn uwch na'r targed, fod y Gwasanaeth wedi dangos gwelliant yn erbyn yr holl Ddangosyddion Perfformiad yn y maes hwn. Nodwyd hefyd fod y targedau osodwyd yn y maes penodol yma yn gaeth iawn. Yn anffodus, oherwydd ailrannu dyletswyddau yn yr Adran Gyllid, nid oedd y Gwasanaeth wedi gallu cwrdd â'r targedau osodwyd i dalu anfonebau diamheuol o fewn 30 diwrnod.

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.***

## 7) Cynllun Rheoleiddio 2006/07

Croesawodd y Cadeirydd Mr Matthew Edwards, Rheolwr Prosiect, o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar Gynllun Rheoleiddio 2006/07 (a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod). Fe gynghorodd Mr Edwards fod yr Adroddiad yn crynhoi'r gwaith roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fe eglurodd fod y Cyflwyniad i'r adroddiad yn manylu ar y newidiadau fyddai'n codi gyda chyflwyniad Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella i awdurdodau tân ac achub. Yn ychwanegol, o flwyddyn ariannol 2006/07 ymlaen, byddai gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo ei Ddatganiad o Gyfrifon blynyddol erbyn 30ain Medi yn y flwyddyn gyllid nesaf yn hytrach na 31ain Hydref. Cyn egluro'r ffioedd disgwyliedig oedd yn daladwy a'r rheswm am y cynnydd o 8% yn y ffioedd, manylodd Mr Edwards ar wahanol agweddau o waith Swyddfa Archwilio Cymru gyda'r Awdurdod yn ystod blwyddyn archwilio 2006/07, oll a restrwyd yn yr adroddiad. Roedd y meysydd hyn yn amrywio o'r Archwiliad Cyfrifon Ariannol, Trefniadau Gwerth am Arian, Archwiliad a gweithgareddau rheoleiddio eraill. Nodwyd hefyd fod camgymeriad wedi digwydd wrth rifo'r bocsys 'Arddangos':

***<u>Penderfynwyd</u>:- nodi cynnwys yr adroddiad.***

## 8) Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella yn 2007/08

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu aelodau o'r cynnydd wnaed mewn perthynas â chyflwyniad Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn 2006/07, yn cynnwys y gofynion i adrodd am berfformiad. Fe eglurodd, fod Llywodraeth Cynulliad Cymru, ym Mawrth 2007, wedi cyhoeddi Canllaw Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella i Awdurdodau Tân ac Achub am ymgynghoriad gyda'r ymatebion angenrheidiol erbyn 2il Ebrill. Oherwydd y dyddiad cau tynn iawn am ymatebion, roedd y swyddogion wedi ymateb ar ran yr Awdurdod. Yn eu hymateb, roedd y swyddogion wedi pwysleisio'r pwysigrwydd o gadw'r Cynllun Lleihau Risg a'r Cynllun Gwella fel dau gynllun ar wahân, gan fod y Cynllun Lleihau Risg yn ddogfen gyhoeddus tra fod y Cynllun Gwella yn ddogfen ac yn arf mewnol. Roedd yr ymgynghoriad ffurfiol ar y gyfres arfaethedig o ddangosyddion perfformiad, er wedi ei

gyhoeddi ar ddiwedd Mawrth, wedi cael ei oedi nes ar ôl yr etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

***<u>Penderfynwyd</u>:- nodi'r cynnydd wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad tuag at gyflwyno Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella i'r Awdurdodau Tân ac Achub, yn cynnwys cyfres cenedlaethol o ddangosyddion perfformiad ar gyfer gwasanaethau tân ac achub.***

**9) Derbynebau Tanwydd TAW at Ddiben Talu Lwfansau Teithio i Aelodau a Swyddogion**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw), oedd, mewn ymateb i geisiadau aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub gynhaliwyd ar 18fed Rhagfyr 2006, yn manylu'r materion gweinyddol, ac eraill, oedd wedi codi yn ystod y deuddeg mis cyntaf o orfod cynhyrchu derbynebau TAW tanwydd i gefnogi ceisiadau am gostau milltiroedd. Eglurodd mai diben yr adroddiad oedd i geisio barnau aelodau ar sut i symud ymlaen gyda gweinyddu'r ceisiadau yma yn y dyfodol. Diweddarwyd aelodau ar gefndir yr adroddiad, yr anawsterau oedd wedi codi i aelodau a swyddogion ers cyflwyno'r gweithdrefnau newydd a'r opsiynau oedd ar gael i weinyddu'r cynllun costau milltiroedd yn y dyfodol. Roedd nifer o aelodau o'r farn trwy gymeradwyo Opsiwn 3, er yn diddymu gwneud cais am ad-daliad TAW am gostau milltiroedd a dalwyd i aelodau a swyddogion, y byddai'r Awdurdod yn gwneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o amser personél. Roedd y Cynghorydd J Vaughan o'r farn y dylai'r Awdurdod barhau gyda'i bolisi presennol o ofyn am dderbynebau TAW a gweithredu'r rheolau yn llym. Mewn ymateb i gais am wybodaeth, fe ddywedodd y Clerc fod cyfanswm y TAW sy'n cael ei adennill yn flynyddol, oddeutu £6.5k yn 2006/07, yn ychydig iawn o gymharu â chyllid gyfan yr Awdurdod. Fe gynghorodd aelodau i ystyried egwyddorion Gwerth Gorau wrth ddod i benderfyniad ar y mater. Roedd yn bwysig dod o hyd i gydbwysedd rhwng effeithlonrwydd costau gweithredu'r weithdrefn bresennol a'r incwm roedd yn gynhyrchu, ac os oedd yn golygu defnydd effeithiol o adnoddau. Yn unfrydol:

***<u>Penderfynwyd:</u>- yn seiliedig ar ddadansoddiad buddion cost, peidio ag adennill TAW ar lwfansau milltiroedd a delir i aelodau a swyddogion.***

**10) Cyflwyniad ar Reolaeth Amgylcheddol y Gwasanaeth**

Croesawodd y Cadeirydd Ms Anna Pretious a Mr Phillip Morris, Rheolwr Cyfleusterau a Chadwraeth Egni a Pheiriannydd gydag Adran Rheoli Cyfleusterau'r Gwasanaeth, i'r cyfarfod i roi cyflwyniad i aelodau ar Adolygiad Rheoli System Rheoli Amgylcheddol y Gwasanaeth. Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd Ms Pretious a Mr Morris orolwg o'r broses o sefydlu System Rheoli Amgylcheddol, manylwyd y gwaith ymgymerwyd hyd heddiw a'r materion oedd rhaid eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad, cyn crynhoi darganfyddiadau'r Adolygiad a manylu am y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol fyddai rhaid ei gasglu ar gyfer Pencadlys Llanelwy a safle'r

Gweithdy a Storfa yng Nghyffordd Llandudno. Cyn ateb cwestiynau'r aelodau, rhestrodd Mr Morris y camau gwahanol oedd rhaid eu cwblhau cyn gallai'r Gwasanaeth obeithio derbyn achrediad Lefel 3 o dan Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd. Roedd swyddogion yn anelu i'r Gwasanaeth fod mewn sefyllfa i dderbyn yr achrediad yma erbyn Gorffennaf 2008.

3.10pm: Gadawodd y cynghorydd J Vaughan y cyfarfod ac fe ymunodd y Trysorydd â'r cyfarfod yn y man hwn.

Wrth ateb cwestiynau'r aelodau, fe gynghorodd swyddogion fod yr Adran Rheoli Cyfleusterau yn cydweithio gyda'r holl awdurdodau lleol yn yr ardal ar faterion megis gwaredu gwastraff a chaffael egni. Cynghorasant fod materion iechyd a diogelwch ynghlwm gyda dal a storio dŵr glaw at ddefnydd y Gwasanaeth ac y byddai adeiladau cyhoeddus yn agored i raddfeydd perfformio egni yn fuan. Cytunodd y swyddogion i gais y Cynghorydd J A Smith fod copi o'r cyflwyniad yn cael ei anfon i holl aelodau o'r Panel. Fe ddiolchodd y Cadeirydd i Ms Pretious a Mr Morris am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r aelodau.

3.20pm: Gadawodd y Cynghorwyr W T Owen ac E Morgan Jones y cyfarfod yn y man hwn.

## 11) Ymestyn Tâl Salwch

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn hysbysu aelodau o'r penderfyniadau gymerwyd gan y Prif Swyddog Tân yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd mewn perthynas â chaniatáu estyniadau o daliadau salwch.

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi'r adroddiad***

## 12) Strategaeth Archwilio Mewnol 2004 – 2008

Cyflwynodd y Trysorydd adroddiad Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio a Chaffael (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn manylu Strategaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2004-2008. Cyn cyflwyno'r Asesiad Anghenion Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio ar gyfer 2007-08, hysbysodd y Trysorydd y Panel o'r strategaeth gyfan. Hefyd, rhoddodd wybod i'r Panel am yr anghenion statudol oedd yn gorfodi'r Awdurdod i gael swyddogaeth Archwilio Mewnol cyn parhau i ddiffinio rôl ac amcanion y swyddogaeth, a'i berthynas â swyddogion ac aelodau'r Awdurdod. Hefyd, rhoddwyd gorolwg i'r aelodau ar sut roedd y Gwasanaeth Archwilio'n cael ei ddarparu ac fe'i cynghorwyd fod Mr Keith Williams, Prif Archwilydd Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy wrth law i ateb eu cwestiynau.

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn y Strategaeth Archwilio Mewnol 2004 hyd 2008.***

## 13) Crynodeb o Weithgaredd Archwilio Mewnol ar gyfer 2006/07 ac Asesiad Anghenion a Chynllun Archwilio Drafft ar gyfer 2007/08

Cyflwynodd y Trysorydd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn crynhoi'r lefel o waith Archwilio Mewnol oedd wedi cymryd lle yn 2006/07 a manylodd ar yr Asesiad Anghenion Archwilio a Chynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2007/08. Eglurodd fod yr adroddiad yn manylu'r cefndir deddfwriaethol a gweithdrefnol oedd yn gysylltiedig â'r swyddogaeth archwilio mewnol. Hefyd, roedd yn cynnwys gwybodaeth ar y categorïau roedd y gwaith archwilio mewnol wedi ei rannu iddo, manylion o'r adolygiadau ymgymerwyd yn 2006/07 ynghyd â'r farn archwilio ddilynol a chrynodeb o'r argymhellion. Roedd y cynllun archwilio blynyddol drafft ar gyfer 2007/08, oedd wedi ei lunio mewn ymgynghoriad â thîm rheoli'r gwasanaeth, ynghlwm i'r adroddiad, er cymeradwyaeth yr aelodau. Gofynnodd y Clerc, pam, er eu bod wedi dynodi gyda llythyren 'A' fel ardaloedd o risg uchel', nad oedd dyddiau archwilio wedi cael eu dyrannu yng nghynllun drafft 2007/08 ar gyfer gwaith archwilio i'w wneud yn y mwyafrif o'r ardaloedd risg uchel yma. Ymatebodd Mr Keith Williams, Prif Archwilydd, fod hyn yn bod oherwydd diffyg adnoddau, a phwysau gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cynghorodd y Trysorydd, yn y blynyddoedd i ddod, byddai'r allwedd sy'n manylu'r categoreiddio graddio risg yn cael ei gynnwys ar ddechrau'r ddogfen cynllun archwilio drafft yn hytrach nag ar ei diwedd.

***<u>Penderfynwyd:</u>- nodi'r grynodeb o weithgaredd Archwilio Mewnol ar gyfer 2006/07 ac i gymeradwyo'r Asesiad Anghenion a'r Cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2007/08.***

## 14) Datganiad Blynyddol o Sicrwydd yr Archwiliad Mewnol

Cyflwynodd Mr Keith Williams, y Prif Archwilydd, adroddiad Pennaeth Gwasanaeth Archwilio a Chaffael y Gwasanaeth (a ddosbarthwyd o flaen llaw), oedd yn manylu, yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio ac er mwyn paratoi ar gyfer Datganiad o Reolaeth Fewnol, ar yr adolygiad o effeithiolrwydd system o Reolaeth Fewnol yr Awdurdod. Roedd cyflwyniad yr adroddiad yma wedi dod yn ofyniad o dan God Ymarfer ar gyfer Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU 2006 CIPFA. Cyfeiriodd Mr Williams yr aelodau at y ddogfen 'Rôl Archwilio Mewnol', atodol i'r adroddiad, oedd yn cynnwys Datganiad Blynyddol o Sicrwydd. Atgoffwyd y Panel gan y Clerc fod derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Blynyddol o Sicrwydd nawr yn ffurfio rhan o gylch gwaith y Panel, a ymestynnwyd yn ddiweddar i gynnwys pwerau sy'n gysylltiedig â thrin materion archwilio penodol. Mewn ymateb i ymholiad gan yr Is-Gadeirydd, cadarnhaodd y Clerc a'r Trysorydd, er fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi awgrymu sefydlu pwyllgor archwilio penodol, roedd y ddau o'r farn, oherwydd maint yr Awdurdod a chyfanswm ei gyllid, byddai defnyddio'r Panel Gweithredol fel pwyllgor archwilio yn ddefnydd llawer mwy effeithiol o adnoddau. Roedd awdurdodau lleol ar y llaw arall yn sefydliadau llawer mwy ac felly, roedd swyddogaethau gweithredol ac archwilio angen bod ar wahân.

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn y Datganiad o Sicrwydd yr Archwiliad Mewnol blynyddol a'i ddefnyddio fel tystiolaeth gyfrannol i'w gynnwys yn Natganiad Rheolaeth Fewnol 2006/07.***

**15) Materion Brys**

Dim.

**16) Dyddiad(au) cyfarfodydd yn y dyfodol**

Yn dilyn trafodaeth:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cynnal cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol am 10:30 y bore ddydd Mercher, 25ain Gorffennaf 2007 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy.***

Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau o'r argymhelliad y dylid trafod yr eitemau busnes oedd yn weddill ar agenda'r cyfarfod heb bresenoldeb y cyhoedd na'r Wasg.

***<u>Penderfynwyd:</u> - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, fod y Cyhoedd a'r Wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitemau canlynol o fusnes oherwydd roedd yn debygol y byddai gwybodaeth a waherddid yn cael ei ddatgelu iddyn nhw fel a ddiffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.***

**<u>RHAN II</u>**

Roedd y ddau adroddiad a gyflwynwyd o dan fusnes Rhan II wedi eu heithrio o ddatgeliad o dan paragraff 14 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**17) Rhaglen Gyfalaf 2007/08**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cefnogi'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn diweddaru aelodau o raglen gyfalaf yr Adran Rheoli Cyfleusterau ar gyfer blwyddyn ariannol 2007/08. Hysbyswyd aelodau'r Panel fod y gwaith ailfodelu yng ngorsafoedd tân Llanberis a Harlech bron â'u cwblhau. Roedd gwaith galluogi wedi dechrau ar safle'r Rhyl er mwyn paratoi ar gyfer adeiladu'r orsaf dân gymunedol newydd. Disgwylir i'r dyddiad cwblhau fod tua diwedd Mawrth 2008. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda sefydliadau partner yn ymwneud â'r cynigion i ailfodelu Swyddfa Ddiogelwch y Sir Ynys Môn yn Llangefni. Hefyd, roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda sefydliadau eraill mewn perthynas â'r argymhelliad i adleoli gorsaf dân Wrecsam. Atgoffwyd cynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar y Panel Gweithredol gan y Clerc o'i lythyr dyddiedig 5ed Hydref 2006, yn ymwneud â'r angen i ddatgan diddordeb yn y mater hwn ac ymatal rhag pleidleisio ar y cynigion yn y dyfodol. Datganodd y Cynghorwyr G M Craddock, E C George a M Williams ddiddordeb

yn y mater fel cynghorwyr cyngor bwrdeistrefol sirol yn cynrychioli ardal awdurdod unedol Wrecsam ar y Panel Gweithredol

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi cynnwys yr adroddiad.***

**18) Rhaglen Gyfalaf Pum Mlynedd 2007 hyd 2012**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cefnogi'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn hysbysu aelodau am raglen gyfalaf arfaethedig y Gwasanaeth ar gyfer ei ystad ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Rhoddodd Mr Stephen Roberts, Pennaeth Rheoli Cyfleusterau, esboniad i'r aelodau o gynnwys yr adroddiad oedd yn cynnwys materion yn ymwneud ag amrywiol agweddau rheoli ystad mor eang. Esboniodd y fethodoleg ddefnyddiwyd i adnabod y safleoedd oedd angen buddsoddiad ar frys a'r meini prawf ddefnyddiwyd i lunio a blaenoriaethu'r safleoedd fydd angen buddsoddiad dros y pum mlynedd nesaf. Eglurodd fod yr atodiad i'r adroddiad yn cynnwys amcangyfrifiad o'r buddsoddiad fydd ei angen ar gyfer bob prosiect. Cynghorodd Mr Roberts y Panel, yn ychwanegol i'r gwaith oedd wedi ei adnabod ar gyfer safleoedd penodol, fod gwaith hefyd angen ei wneud er mwyn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ac i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb eraill ar nifer o safleoedd y Gwasanaeth. Pwysleisiodd hefyd, yn seiliedig ar yr amcangyfrif ar gyfer y gyllideb gyfalaf o 2007 hyd 2012 y byddai diffyg rhwng y swm fyddai ei angen i gwblhau'r rhaglen a'r cyllid fydd ar gael i gwblhau y gwaith ar yr ystad. Felly, byddai'r Awdurdod, yn y dyfodol, yn gorfod penderfynu os i gynyddu dyraniad Cyllideb Gyfalaf Rheoli Cyfleusterau neu i ohirio rhai prosiectau tu hwnt i'r rhaglen 5 mlynedd.

Fe ofynnodd y Cynghorydd M Williams os oedd y Rhaglen arfaethedig yn cymryd materion amgylcheddol i ystyriaeth, materion megis y rhai amlygwyd yn y cyflwyniad cynharach ar yr Adolygiad o System Rheoli Amgylcheddol y Gwasanaeth. Cynghorodd Mr Roberts nad oedd y materion yma wedi eu hystyried yn uniongyrchol fel rhan o'r rhaglen gyfalaf pum mlynedd ond byddai Adran L o'r Rheoliadau Adeiladu yn cynnwys y mwyafrif ohonynt ac y byddai hefyd yn ymgynghori gyda'r Peiriannydd Amgylcheddol ac Arbed Egni mewn perthynas â hwy.

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo'r rhaglen gyfalaf pum mlynedd ar yr amod fod digon o arian ar gael ym mhob blwyddyn ariannol.***

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 y prynhawn.